FFORWM MYNEDIAD LLEOL WRECSAM
COFNODION DRAFFT

Deugeinfed gyfarfod y Fforwm a gynhaliwyd yn Neuadd y Dref, Wrecsam Dydd Gwener Chwefror 4ydd 2011.

01/11 PRESENOLDEB AC YMDDIHEURIADAU

Yn bresennol:
YSGRIFENNYDD (Cyflenwol):
Katie Holland

IS-GADEIRYDD:
Sue Gittins (SG)

AELODAU:
Martin Howorth (MH)
Gerald Moss (GM)
Tim Stratton (TS)
D Gwynfor Jones (DGJ)
John Cooper-Poole (JCP)

ERAILL:
Sean Hanratty (SH) CBSW
Sion Roberts (SR) CBSW
Alison Whitley (AW) CBSW
Caroline Selby (CS) Arsyllwr
Aleck Coulson (AC) Arsyllwr - 'Tread Lightly'

Ymddiheuriadau:
Mabyn Pickering (MP)
Shelagh Roberts
Janet Williams
Mike Crawshaw
John Evans
Edward Wardle
Mary Roberts (wedi cyflwyno ymddiswyddiad)
Guy Springett (wedi cyflwyno ymddiswyddiad)

02/11 COFNODION A MATERION YN CODI O'R CYFARFOD A GYNHALIWYD AR 12FED TACHWEDD 2010:

Cytunwyd bod cofnodion y cyfarfod diwethaf yn gywir. Awgrymodd SG y dylid gyrru cerdyn o ddiolch at Carla Hughes, sy'n dod i ddiwedd ei chyfnod fel Ysgrifennydd Fforwm Mynediad Agored Wrecsam (FfMLlW).

GWEITHREDU: Y Cadeirydd i yrru cerdyn o ddiolch at Carla Hughes.

- **Aelodaeth y Fforwm**

Holwyd cwestiynau ynghylch aelodaeth o'r fforwm. Petai nifer yr aelodau yn isel, pa niferoedd fyddai eu hangen i sicrhau bod pleidleisio ar eitemau yn cael digwydd. Yr ysgrifennydd i wirio sawl aelod sydd eu hangen er mwyn i'r FfMLl fod â chworwm gyda Chyngor Cefn Gwlad Cymru (CCGC)? Bydd adroddiad ar hyn yn y cyfarfod nesaf.

Hefyd dywedodd MH y byddai'n ceisio aelodau newydd i gymryd lle'r rhai a ymddiswyddodd yn ddiweddar. Pwysleisiodd MH y dylai'r fforwm fod yn gytbwys, gan gynrychioli barnau amrywiol. Awgrymodd MH y dylai'r rhai hynny sydd â diddordeb ddanfon e-bost ato i: martin.howorth@wrexham.gov.uk ac y byddai'n mynd drwy'r ceisiadau a dechrau cyfweld. Dywedodd MH y byddai hefyd yn cysylltu â'r Rheolwr Cydraddoldebau ac AVOW.

GWEITHREDU: Yr Ysgrifennydd i wirio gyda CCGC. MH i edrych ar aelodaeth newydd.

- **Manylion Cyswllt Aelodau FfMLlW**

Cynghorodd SG bod KH wrthi'n dosbarthu rhestr ag arni fanylion cyswllt FfMLlW. Aelodau FfMLlW i wirio manylion a chywiro os bydd angen.

- **Camfeydd Cul**

Dim byd i'w adrodd ar hyn o bryd.
GWEITHREDU: SR i archwilio.

- **Adroddiad Blynyddol Drafft**

Dywedodd SG fod MP wedi bod wrthi'n gweithio ar yr Adroddiad Blynyddol. Ychwanegodd MH ei fod angen yr wybodaeth cyn gynted ag y bo modd.
Awgrymodd SG y gallai'r fersiwn ddrafft fynd allan o bosib gyda'r set nesaf o Gofnodion.
GWEITHREDU: Dylid gyrru pob sylw ar gyfer yr Adroddiad Blynyddol at MP yn ddi-oed. SG i siarad gyda MP ynglŷn â'r cynnydd, ac i weld a oes modd gyrru'r drafft allan.

- **Dosbarthu Cofnodion**

Mae'r materion wedi eu datrys.

- **Cynllun Datblygu Lleol**

Dywedodd TS ei fod wedi edrych ar y Fframwaith Datblygu Lleol (FfDLl), ond dim ond o safbwynt llwybrau ceffylau, ac awgrymodd y dylai'r FfMLl wneud sylwadau fel un corff yn hytrach nag fel unigolion.
Ychwanegodd JCP ei fod yn ansicr o ble mae llwybrau troed a mynediad yn eistedd yn y CDLl, a honnodd nad oedd fawr i'w ddweud heblaw bod datblygu yn bygwth Hawliau Tramwy.

O ran cynllunio a rôl y FfMLl, dywedwyd bod MP wedi ysgrifennu at yr uwch swyddog cynllunio i drefnu cyfarfod i drafod y materion hynny y dylid ymgynghori arnynt gyda'r FfMLl.

Ychwanegodd MH, er bod i'r FfMLl rôl strategol, prif swyddogaeth yw amddiffyn hamdden awyr agored yn y Fwrdeistref Sirol i sicrhau bod gofynion mynediad agored yn cael eu boddhau.

GWEITHREDU: Unrhyw sylwadau ar y CDLl i ddod i law TS cyn gynted ag y bo modd. MP hefyd i ddilyn hynt y cais am gyfarfod gyda'r Uwch Swyddog Cyflunio.

- **Cerbydau 4x4 yng Nghefn Gwlad**

Trafodwyd yr ymateb gan John Walsh (Strydlun). Dywedodd DGJ i'r ymholiad gwreiddiol ddod gan MC a bod cyflwr gwael Llwybr Wayfarer yn golygu bod cerbydau 4x4 yn erydu'r tir a bod ffermwyr hefyd yn ei chael hi'n anodd cael mynediad at eu hanifeiliaid. Cwestiynodd DGJ felly pa un ai a gollwyd gafael ar y mater ar ryw bwynt.

Hefyd dywedodd DGJ ei fod yn meddwl bod y ffermwyr wedi cytuno i wneud y gwaith atgyweirio o gael y deunyddiau priodol, gan weithio gyda rhai o'r grŵp 4x4.
Yna cyflwynodd SG Aleck Coulson (AC) o'r grŵp '4x4 Cyfrifol', Tread Lightly.

Dywedodd AC fod Tread Lightly yn ymroddedig i weithio gyda Chynghorau ar draws Cymru, a'u bod weithiau'n cynnig gwirfoddolwyr i gynorthwyo gyda gwaith ymarferol.

Dywedodd AC ei fod yn gyfarwydd â Llwybr Wayfarer, ond ei fod yn ansicr gyda phwy mae'r cyfrifoldeb amdano. Roedd yn credu bod arwydd 'ffordd ar gau' ym mhen Llanarmon, ond o bosib nad oedd un rhywbeth ar ochr Sir Ddinbych ohono.

Awgrymodd MH bod y FfMLl yn cysylltu â Chris Bentley, Cydlynydd Ardal Strydlun, i gael gwybod a yw'r Gorchymyn Rheoleiddio Traffig yn un dros dro, ac ai ynglŷn â thir Wrecsam yn unig y mae'r broblem, er mwyn gallu datrys y mater.
Awgrymodd DGJ y dylai'r FfMLl roi pwysau er mwyn i broblemau gael eu datrys, ac i'r llwybr gael ei ail-agor.

GWEITHREDU:
Mae angen i MC adrodd a yw pobl yn dal i ddefnyddio Llwybr Wayfarer ac i ailddatgan ei bryder gwreiddiol.
Chris i gysylltu â Chris Bentley ynglŷn ag amserlen y Gorchymyn Rheoleiddio Traffig, a ble mae arwyddion i'w gweld.

- **Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol:**

Awgrymodd SG ei bod hi'n ymddangos bod cefnogaeth ar gyfer y cynnig AHNE.
Roedd pryderon bod Fforymau Mynediad Lleol Sir Ddinbych a Chonwy i uno. Y farn oedd y byddai cydweithrediad agosach gyda Sir y Fflint a Wrecsam yn fwy priodol o ymestyn yr AHNE.
Mynegodd MH y bu awgrym ar Fwrdd Gweithredol Bwrdeistref Sirol Wrecsam o ran ymestyn yr AHNE yn Nyffryn Ceiriog, ond ychwanegodd bod y mater yn ddibynnol ar CCGC.

GWIETHREDU: Adnewyddu'r cais i gwrdd â FfMLl Sir y Fflint a Sir Ddinbych ar faterion traws-ffiniol.

- **Cynllun Glastir:**

Dim newyddion pellach i'w adrodd. Awgrymodd DGJ bod angen cymhelliad i annog mwy i ymuno â'r cynllun.

03/11 ADRODDIAD Y CADEIRYDD:
Roedd y rhan fwyaf o'r materion yn Adroddiad y Cadeirydd wedi cael sylw dan 'Materion yn Codi'.
Awgrymodd SG drafodaethau ar y cyd gyda FfMLl Sir y Fflint, yn enwedig ar statws AHNE.
Mynegodd TS a GM eu diddordeb yn hyn. Awgrymodd MH bod un neu ddau gyfarfod ar y cyd i'w cynnal pob blwyddyn.
<u>GWEITHREDU :</u>
SG i drafod dyddiadau potensial ar gyfer cyfarfodydd ar y cyd gyda MP.

04/11 ADRODDIAD YR YSGRIFENNYDD:
Roedd pob mater wedi cael sylw dan 'Materion yn Codi'.

05/11 CEIDWAID MYNEDIAD:
Cafwyd adroddiad gan SR ar brosiect llwybr troed newydd o'r Waun i fyny i Ddyffryn Ceiriog.
Awgrymodd SG bod SR yn siarad gyda Gogledd Gororau Cymru ynglŷn â chyllid Safle Treftadaeth Byd.

06/11 ADRODDIAD BLYNYDDOL DRAFFT:
Trafodwyd yn ystod Materion yn Codi.

07/11 DIWEDDARIAD CYNLLUNIO:
Trafodwyd yn ystod Materion yn Codi.

08/11 PROSIECT LLWYBR CYMUNEDOL BROUGHTON:
Cafwyd cyflwyniad gwych gan AW ar Brosiect Llwybr Cymunedol Broughton a drefnwyd ar y cyd gyda Groundwork Wrecsam a Sir y Fflint.
Dangosodd AW nifer o welliannau mynediad a wnaed fel rhan o'r prosiect gan gynnwys gosod rheiliau diogelwch, grisiau, gatiau mochyn, rheoli llystyfiant ac arwyneb newydd i lwybrau.
Siaradodd AW hefyd am y cynllun 'Mabwysiadu Llwybr', gan ddweud y byddai'r adran Hawliau Tramwy yn croesawu rhagor o wirfoddolwyr ar gyfer y fenter hon.
Gwnaeth TS gais am ymateb swyddogol gan CBSW ar briodoldeb cyffredinol gatiau moch.

Cafwyd cyflwyniad hefyd gan Gymunedau yn Gyntaf Hightown ar eu prosiect gwella llwybrau hwythau. Dywedodd AW y byddai'n amserlennu cyfarfod y tu allan i'r cyfarfod FfMLl i gwrdd â phrosiect Hightown.
GWEITHREDU: AW i adrodd yn ôl yn Adroddiad y Ceidwad wedi cyfarfod â Chymunedau yn Gyntaf Hightown.

09/11 CYNGOR CEFN GWLAD CYMRU:
Nodwyd nad fu cynrychiolydd o CCGC yng nghyfarfodydd FfMLl Wrecsam ers i Alun Price adael.
Awgrymwyd y gallai'r FfMLl ysgrifennu o bosib at Brif Weithredwr CCGC ar y mater hwn.
Dywedodd MH ei fod wedi derbyn llythyr gan CCGC a oedd yn cynghori bod toriadau o 22% i ddod eleni, gan rybuddio ei fod o'r farn y byddai'r gostyngiad yma mewn cyllid yn parhau mewn blynyddoedd i ddod.
Dywedodd SG y byddai'n holi yng nghyfarfod Cadeiryddion y FfMLlau a yw FfMLlau eraill yn profi'r un broblem o ran diffyg presenoldeb CCGC.
GWEITHREDU:
Y Cadeirydd i ysgrifennu yn y lle cyntaf at Brif Weithredwr CCGC gan holi pam fod cynrychiolydd o CCGC yn parhau i fod yn absennol o gyfarfodydd FfMLl Wrecsam. Gall hefyd ofyn am gylchlythyr rheolaidd gan CCGC.

10/11 UNRHYW FATER ARALL:
Adroddodd SG bod yr eitemau agenda ar gyfer cyfarfod Cadeiryddion FfMLlau i gynnwys Glastir, llwybrau arfordirol, toriadau ariannol a baw cŵn.

Dywedodd TS ei fod yn gorfod aros yn rhy hir cyn derbyn gorchmynion ynghylch rhybuddion Hawliau Tramwy (addasiadau neu wyriadau).

GWEITHREDU:
Cytunodd SH y byddai'n gyrru e-bost torfol at holl aelodau'r FfMLL, gan ofyn i unigolion gofrestru eu diddordeb mewn rhybuddion penodol er mwyn gallu danfon gwybodaeth atynt yn fwy effeithiol.
Gofynnodd GM a gafwyd unrhyw wybodaeth ynghylch gwerthiannau coedwigaeth yng Nghymru.
Awgrymodd SG y dylai holl aelodau'r FfMLL barhau i fonitro'r sefyllfa yn agos.

11/11 EITEMAU AR GYFER YR AGENDA NESAF

Parthed syniadau ar gyfer cyfarfodydd i ddod, adroddodd SG fod MP yn awyddus i ddychwelyd i Chwarel Y Mwynglawdd. Dywedodd MH fod y sefyllfa yno yn fregus tu hwnt, ac awgrymwyd y dylai'r Cadeirydd gysylltu ag Ymddiriedolaeth Chwarel Y Mwynglawdd a'r Cyngor Cymuned i wirio eu barn ynghylch ymweliad gan y FfMLl i ystyried hamdden a phroblemau mynediad yn yr ardal. Os daw ateb ffafriol, yna byddai modd cynnal cyfarfod ar y safle.

Awgrym arall oedd edrych ar welliannau Hawliau Tramwy yn Y Waun ac edrych ar y safle Treftadaeth y Byd yn Nhrefor, cyn cynnal y cyfarfod.

Awgrymodd SG gyfarfod efallai yn yr AHNE arfaethedig.

Awgrymodd GM 'gyrru oddi-ar-y-ffordd yn gyfreithlon' fel testun ar gyfer yr Hydref/Gaeaf.

GWEITHREDU:

SG i siarad gyda MP ynghylch testunau posib ar gyfer y cyfarfod ac i benderfynu beth fyddai'r opsiwn gorau ar gyfer y cyfarfod nesaf. MH i gyflwyno diweddariad ar dargedau'r Cynllun Gwella Hawliau Tramwy yn y cyfarfod nesaf.

Dyddiad y cyfarfod nesaf: 27ain Mai 2011.
Lleoliad: I'w drefnu.